



Cyflwyniad

Mae'r Taflen Ffeithiau hon yn sôn am Gyllid Myfyrwyr. Dylid ei darllen ochr yn ochr â'n tudalen we '[Sut i Gwyno](#)', sydd ar gael o dan y tab 'Gwneud Cwyn'.

Os ydych chi yn byw fel arfer yng Nghymru ac yn astudio naill ai yng Nghymru, neu yn unrhyw le arall yn y DU, mae'n bosibl bod gennych hawl i gael cyllid myfyrwyr i dalu costau eich ffioedd dysgu a'ch costau byw.

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn darparu cyllid, ar ran Llywodraeth Cymru, tuag at y ffioedd a'r costau byw sy'n wynebu myfyrwyr wrth astudio mewn addysg uwch. Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (CBF), fel un o asiantau Llywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am asesu a yw myfyrwyr yn gymwys i gael cymorth ariannol, ac am brosesu a thalu benthyciadau a grantiau i fyfyrwyr.

Mae gan CBF, sy'n disgyn o dan y brand Cyllid Myfyrwyr Cymru, drefn gwyno y dylid cyfeirio cwynion ati. Os ydych yn anghytuno â phenderfyniad ynghylch a ydych yn gymwys i gymorth ariannol, mae angen i chi ddilyn y broses apelio. Er nad yw'r CBF yn gorff sydd o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon, pan fo'r CBF yn cyflawni un o swyddogaethau Llywodraeth Cymru (wrth weinyddu a phrosesu grantiau a lwfansau i fyfyrwyr yng Nghymru), mae ei weithredoedd o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon. Fodd bynnag, rhaid i chi gwyno wrth y CBF cyn cyflwyno eich cwyn i ni.

Yr hyn gall yr Ombwdsmon ei wneud

Mae'n bosibl i'r Ombwdsmon ystyried cwynion am y canlynol:

- cyfathrebu gwael;
- swyddogaeth awdurdodau lleol o ran asesu / ailasesu a gweinyddu ceisiadau am gyllid myfyrwyr;
- methiant i weinyddu grantiau a lwfansau ar ôl penderfyniad bod hawl iddynt.

Yr hyn na all yr Ombwdsmon ei wneud

Ni all yr Ombwdsmon:

- ystyried cwynion am faterion sy'n ymwneud â chyllid myfyrwyr nad ydynt wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru – e.e. y cynllun Ad-dalu Benthyciadau Athrawon;
- ystyried apeliadau yn erbyn penderfyniadau sydd wedi'u gwneud yn briodol.

Materion i gadw mewn cof

Nid oes angen i chi ddefnyddio cyfreithiwr neu eiriolwr arall i gyflwyno cwyn i'r Ombwdsmon; mae ei wasanaeth yn ddi-dâl ac yn ddiuedd ac rydym yn ceisio gofalu bod y broses mor hawdd â phosibl i achwynwyr ei dilyn.

Gwybodaeth bellach

Gallwch gael cyngor annibynnol di-dâl gan eich Cyngor ar Bopeth leol a all eich helpu i gyflwyno cwyn: <https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/>

Gallwch hefyd gael mwy o wybodaeth am sut i gwyno am gyllid myfyrwyr ar y gwefannau canlynol:

- Cyllid Myfyrwyr Cymru – www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk; a,
- Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr – www.slc.co.uk/

Mae enghreifftiau o achosion y mae'r Ombwdsmon wedi edrych arnynt ar gael ar ein gwefan, o dan y tab 'Cyhoeddiadau' ar y dudalennau '[Ein Canfyddiadau](#)' a '[Coflyfr yr Ombwdsmon](#)'.

Cysylltu â ni

Os ydych yn ansicr a fyddai'r Ombwdsmon yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, [cysylltwch â ni](#), drwy ffonio 0300 790 0203 neu ebostio holwch@ombwdsmon.cymru

Hawdd ei Ddarllen

Cyllid Myfyrwyr

 [Lawrlwytho](#)

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom yn Gymraeg a byddwn yn ymateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi cyn ymateb.

Holwch@ombwdsmon.cymru

0300 790 0203 Mae ein llinell ffôn ar agor rhwng 10yb-12:30yp a 1:30yp-4yp Dydd Llun - Dydd Gwener